

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

4/4/2017

**Presennol:** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Huw Antur, Dewi Jones, Alwyn E Jones, Heledd Jones, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

- 1694** Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Arwel Lloyd Jones, Karl Jones, Ian Trow ac Alwyn Roberts.
- 1695** **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
- 1696** **Buddiant:** Derbyniwyd datganiadau buddiant gan Dewi Jones ac Alwyn E Jones ym mater 1705, sef cais cynllunio NP5/71/T211A.
- 1697** **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 7/3/17.
- 1698** **Materion y Clerc :** Trafodwyd ymateb CCG i sylwadau'r Cyngor am ddulliau gosod a chytunwyd i ofyn am hyfforddiant o gynorthwyo pobl leol i lenwi ffurflen i gofrestru ar gyfer cartrefi a gofyn iddynt a ydyw'n bosib gostwng y rhent.
- 1699** **Is bwyllgor y Fynwent:** Ni fu cyfarfod oherwydd tywydd anffafriol.
- 1700** **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir. Bu Asiantaeth y Cefnffyrdd llynedd yn asesu diogelwch ffawydden a gafodd ei tharo gan fellten, gan fwrw golwg ar yr un pryd ar ddiogelwch coed cyfagos ar yr A494; yn eu barn nhw nid oedd angen gweithredu. Bydd yr archwiliad x5 mlynedd yn digwydd nesaf yn 2018. Mae gwaith ar gwlfert Y Lôn ar y gweill. Diolchwyd i Alan Jones Evans am ei waith ac am drefnu gwaith brys i lenwi tyllau peryglus ar y ffordd yn dilyn y cyfarfod diwethaf.
- 1701** **Materion Eiddo'r Cyngor:** Bydd Dewi Jones a Karl Jones yn adrodd yn fuan ar gyflwr eiddo'r Cyngor Cymuned, yn creu cynllun 5 mlynedd o waith ac yn uwchraddio'r portffolio. Cafwyd ymateb gan Liz Haynes am gyflwr llwybrau'r ardal; fe fydd yn cysylltu gyda pherchennog Cae Ceunant ac mae'n gobeithio cael cyllid i adfer y llwybr. Bydd y Cyngorwyr yn gwneud ymholiadau am grant ar gyfer plygu gwrych ochr yr afon ar Lwybr y Cei.
- 1702** **Materion ariannol:** Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis sef
- i. Anfoneb John Roberts, Archwilydd Mewnol
  - ii. Hyfforddiant i'r Swyddog Ariannol – Un Llais Cymru £35
- Adroddwyd am drefniadau Archwilio Blynyddol o'r Cyfrifon (BDO). Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwahoddiad i osod hysbysiad yn Rhaglen Sioe Flynyddol Llanuwchllyn, ond cytunwyd nad ydyw o fewn hawliau'r Cyngor.
- 1703** **Materion lleol:** Canmolwyd yr hyfforddiant diweddar ar y di-ffib a mynegwyd balchder fod cynifer wedi mynychu'r cyfarfod. Diolchodd y Cyngor yn gynnes iawn i

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

---

Edwina Jones a Bethan Jones am eu gwaith yn trefnu. Rhoddwyd yr hawl i'r Swyddog Ariannol dalu gweddill y costau.

Adroddwyd bod Clwb Pêl Droed Llanuwchllyn yn bwriadu ymgymryd â gwaith stiwardio yn lleol er mwyn codi arian.

### 1704 Gohebiaeth:

#### 1. Parc Cenedlaethol Eryri:

- i. Cymeradwywyd cais NP5/71/T211A sef codi estyniad unllawr yn y cefn i Beudy Isaf, Llanuwchllyn.
- ii. Derbyniwyd dyddiadau o gyfarfodydd gan Barc Cenedlaethol Eryri.

#### 2. Eraill: Derbyniwyd llythyron o ddiolch am gyfraniadau gan nifer fawr o fudiadau.

*Bydd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf yn cael eu cadarnhau ar ôl derbyn gwybodaeth am enwebiadau ar gyfer y Cyngor. Bydd y cyfarfod nesaf yn Gyfarfod Blynyddol.*